

CAERDYDD Sy'n Dda i Blant



05 LLUNIO
GWASANAETH

WWW.CAERDYDDSYNDDAIBLANT.CO.UK



CYFLWYNIAD

4.1 COMISIYNWYR

CYFLWYNIAD

Hyfforddwyd plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd i ddod yn Gomisiynwyr Teuluoedd yn Gyntaf ac roedd eu barn nhw yn cyfrif am 25% o'r 3 o'r 4 elfen.

“Gwnaeth y Comisiynwyr Ifanc sicrhau ein bod ni'n canolbwyntio ar realiti Teuluoedd yn Gyntaf. Gyda chomisiynu mae'n hawdd mynd oddi ar y trywydd o ran beth yw diben y gwaith ac anghofio mai pobl go iawn sydd y tu ôl i'r broses. Gwnaeth eu rolau yn y cyflwyniadau i ni feddwl am sut roedden ni'n cyflwyno ein cynnig a sicrhau ei fod yn rhywbeth a allai wneud gwahaniaeth yn eu bywydau. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd ganddynt a'r ffordd aethon nhw ati i ddelio â'r broses yn wych. Maent yn enghraifft o arfer da ac yn dangos ei bod yn bosibl i blant a phobl ifanc gael llais go iawn mewn proses gomisiynu gymhleth o werth uchel

Sally Jenkins

Cyfarwyddwr Cynorthwyol Barnardo's
(Cyflenwr Arweiniol Teuluoedd yn Gyntaf)

Mae 'comisiynydd' yn aelod o'r teulu a fydd yn ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth eraill ac yn cynrychioli eu safbwyntiau i sicrhau bod pawb yn cael dweud eu dweud pan fo penderfyniadau'n cael eu gwneud am bethau sy'n effeithio arny'n nhw. Fel rhan o'u hyfforddiant byddant yn gweithio'n agos â'r timau comisiynu mewn cynghorau a gwasanaethau lleol.

Bydd comisiynydd yn cefnogi a hyrwyddo safbwyntiau teuluoedd eraill trwy amryw weithgareddau. Mae'r gwaith a wneir gan Gomisiynydd yn rhan hollbwysig o'r cylch comisiynu 'Cynllunio, Gwneud, Adolygu' a gall helpu i gael dylanwad cadarnhaol o ran y ffordd orau o wario cyllidebau cyfyngedig i ddiwallu anghenion pawb yn y gymuned.

Bydd aelodau o'r teulu a fydd yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant hwn yn dod yn gyfarwydd â gwaith comisiynu a ddylai wella eu cyfleoedd o ran cael swydd a gwella eu sgiliau cyfathrebu a'u natur broffesiynol.

CYNNWYS YR HYFFORDDIANT

Trwy'r rhaglen Comisiynwyr bydd unigolion yn dysgu am gomisiynu, asesu, adborth a sicrwydd ansawdd. Byddant yn meithrin dealltwriaeth a gwybodaeth am y broses gomisiynu trwy weithgareddau yn seiliedig ar drafodaeth ac ymchwil.

Fel rhan o'r hyfforddiant hwn bydd rhaid i'r cyfranogwyr gynnal ymgynghoriad gyda dysgwyr eraill yn yr ardal leol i ganfod lle mae'r anghenion ychwanegol neu'r bylchau o ran darpariaeth. Bydd y broses ymgynghori'n amrywio yn dibynnu ar yr hyn yr hoffai'r grŵp comisiynu ganolbwyntio arno. Bydd rhaid i'r dysgwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen hon hefyd gynnal asesiad o wasanaeth a rhoi adborth ar eu darganfyddiadau.

4.2 CYFWELYDD

INTRODUCTION

Mae'n hollbwysig cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y broses recriwtio i gael eu barn a'u safbwyntiau. Drwy wneud hyn, bydd y defnyddwyr gwasanaeth yn cael y cyfle i deimlo fel eu bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae Estyn a'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn cefnogi'r broses o gynnwys defnyddwyr yn y broses recriwtio gan eu bod yn credu bod barn defnyddwyr gwasanaeth yn fwy tebygol o fod o gymorth yn y broses o recriwtio'r person cywir ar gyfer y swydd.

Bydd y cyfwelydd yn blentyn, person ifanc neu aelod o'r teulu sydd wedi'i hyfforddi i sicrhau bod ei safbwyntiau'n cael eu cynrychioli wrth ddewis ymgeiswyr ar gyfer rolau sy'n ymwneud â gweithio gyda theuluoedd. Fel cyfwelydd byddai'n hyrwyddwr i deuluoedd o ran dewis gweithlu priodol a fydd yn diwallu eu hanghenion ac anghenion teuluoedd eraill. Gwneir hyn i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd teg ac i sicrhau y gwrandewir ar safbwyntiau aelodau'r teulu gydol y broses recriwtio.

“ Mae sawl mantais i gynnwys pobl ifanc mewn cyfweiliadau, o ran y sefydliad recriwtio a'r bobl ifanc gysylltiedig, ac mae'n elfen bwysig o unrhyw broiect sydd â chylch gwaith sy'n ymwneud â gweithio gyda phobl ifanc. Gallant gynnig persbectif person ifanc ar yr ymgeisydd, a gallant roi eu barn o ran sut mae'r ymgeisydd yn uniaethu â phobl ifanc, sy'n hanfodol os yw'r rôl y maen nhw'n ymgeisio amdani yn ymwneud â hyn. Mae pobl ifanc yn dysgu sgiliau asesu ffurflenni cais, cyfweld a thrafod fel panel i gytuno ar y canlyniad terfynol.”

“ Gwnaeth Tîm Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro gynnwys pobl ifanc o Gyngor Ieuenctid Caerdydd mewn proses gyfweld ar gyfer un o'n haelodau tîm newydd. Roedd y ddau berson ifanc a ddaeth i'r broses gyfweld wedi paratoi'n llawn ar ei gyfer; trwy astudio'r ffurflenni cais a chreu cwestiynau yr oedden nhw am ofyn i'r ymgeiswyr yn ystod y broses. Gwnaethon nhw ymddwyn yn broffesiynol iawn, gan roi adborth a barn ar yr ymgeiswyr, ac ateb y cwestiynau gan yr ymgeisydd mewn modd priodol a gwybodus. Roedden yn wych cael y bobl ifanc fel rhan o'r panel cyfweld.

Cheryl Williams

*Uwch Arbenigwr Hyrwyddo Iechyd,
Iechyd Cyhoeddus Cymru, Tîm Iechyd
y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro*

CYNNWYS YR HYFFORDDIANT

Mae'r rhaglen yn dilyn tri phrif faes; y broses ddethol, gosod y sefyllfa a thechnegau cyfweld.

Bydd y plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n cymryd rhan yn y rhaglen hon yn cael cyfle i greu, hysbysebu, holi a rhoi adborth ar yr ymgeiswyr. Yna byddant yn cwblhau'r gweithgaredd hwn trwy amryw ddulliau, fel trafod, chwarae rôl a gwaith ysgrifenedig.

Bydd angen i'r dysgwyr gyflwyno darnau ysgrifenedig o waith er mwyn cwblhau'r rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys rhestr o bethau i'w gwneud a phethau na ddylid eu gwneud, a fydd o gymorth i atal gwahaniaethu wrth hysbysebu am swydd, dwy hysbyseb swydd syml yn dangos gwahanol arddulliau a chynulleidfaoedd, matrices sgorio, a 5 cwestiwn perthnasol i brofi'r ymgeisydd.

OEDOLION YN ERBYN POBL IFANC

ANGEN

Hyfforddiant pellach a chael dealltwriaeth o raglen y comisiynwyr

NOD

Rhoi cyfleoedd ystyrlon i ddefnyddwyr gwasanaeth gymryd rhan mewn proses anffurfiol ac addysgiadol sy'n eu galluogi i ddeall yr Agenda Cyfranogi a dylanwadu ar benderfyniadau a chynlluniau a wneir gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ninas Caerdydd.

AMCANION

- Hyfforddiant mewn cyfranogi a Chomisiynwyr a meithrin tîm
- Cynyddu dealltwriaeth y defnyddwyr gwasanaeth o'r Agenda Cyfranogi lleol;
- Galluogi defnyddwyr gwasanaeth i fyfrio ar berfformiad a chynnydd;
- Galluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddod i adnabod ei gilydd a rhannu profiad cyffredin;

DULL

Cynnal cyfres o weithdai addysgol, difyr a rhyngweithiol anffurfiol.

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Gwneud croes ar y llawr (mae'n haws defnyddio tâp masgio i wneud hyn), dylid labelu pob rhan o'r groes hon. Dde uchaf 'Ti'n ennill, Dwi'n colli; chwith uchaf 'Dwi'n ennill, Ti'n colli, dde isaf 'Colli-colli, chwith isaf 'Ennill-ennill'.

Bydd gweithwyr yn rhoi sefyllfaoedd i ddefnyddwyr

gwasanaeth. Ym mhob sefyllfa rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth sefyll mewn gwahanol rannau a pherfformio'r ffordd y gallai'r sefyllfa droi mas. Er enghraifft, os mai'r sefyllfa yw "Rydych chi'n rhiant, a daw'ch merch 15 oed adref a chyhoeddi ei bod hi wedi dechrau cymryd y bilsen atal cenhedlu." Bydd aelodau o'r grŵp yn perfformio sefyllfa, un lle bydd y rhiant a'r ferch yn ennill, un lle bydd neb yn ennill, un lle bydd y ferch yn ennill ac un lle bydd y rhiant/oedolyn yn ennill

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
20 munud	Oedolion yn erbyn pobl ifanc	Mae'r gweithgaredd hwn yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu nodi canlyniadau posibl sefyllfa, yn enwedig yn eu rôl fel Comisiynydd.	Tâp masgio a datganiadau oedolion yn erbyn pobl ifanc – Gweler isod

OEDOLION YN ERBYN POBL IFANC (PARHAD)

ADULTS VS YOUNG PEOPLE STATEMENTS

- Rydych chi'n rhiant, a daw'ch merch 15 oed adref a chyhoeddi ei bod hi wedi dechrau cymryd y bilsen atal cenhedlu
- Gofynnodd eich rhieni i chi fod adref erbyn hanner nos ac ni chyrraeddoch adref tan 2am
- Rydych chi'n rhiant, ac yn credu bod eich mab yn treulio amser gyda'r 'gang anghywir'
- Rydych chi yn yr ysgol ac mae rhywun yn dod atoch ac yn dweud wrthyfch am roi eich ffôn iddynt
- Mae eich tiwtor yn eich ffonio i ddweud y bydd yn anfon llythyr at eich rhieni os byddwch yn colli diwrnod arall yn y coleg eleni
- Rydych eisiau beic modur ond ni wnaiff eich rhieni eich helpu i dalu amdano

SEFYLLFAOEDD

- Mae erthygl yn cael ei chyhoeddi am wasanaeth y gwnaethoch chi fel grŵp ei asesu; mae'r erthygl yn sôn am rai o'r pethau nad oeddech yn eu hoffi o ran y ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu.
- Mae angen i chi ddefnyddio gwasanaeth i siarad am ambell i fater cyfrinachol sydd gennych, rydych chi wedi asesu'r gwasanaeth hwn yn y gorffennol ac yn gwybod eich bod wedi cwrdd â'r staff y bydd angen i chi siarad â hwy

Mae'n syniad da cael datganiadau ychwanegol sy'n adlewyrchu'r pynciau y mae'r grŵp yn gweithio arnynt, pethau mae ganddynt ddiddordeb ynddynt neu faterion cyfoes.

COMISIYNWYR GWEITHGAREDD 2

CYNNAL ASESIAD

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Gallai defnyddwyr gwasanaeth asesu gwasanaeth sy'n cael ei gomisiynu neu ei ddarparu gan yr awdurdod lleol. Neu gallant asesu gwasanaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth a ddarperir gan sefydliad gwirfoddol neu fusnes preifat. Ar ôl cynnal ymgynghoriad dylai'r defnyddwyr gwasanaeth allu nodi pa wasanaeth sydd angen ei asesu fwyaf. Gallant wneud hyn drwy ddefnyddio unrhyw un o'r technegau y maen nhw wedi'u dysgu gydol y broses hyfforddi. I gael rhagor o wybodaeth ar sut i gynnal yr asesiad gweler y gweithgareddau blaenorol.

Ar ôl iddyn nhw wneud hyn rhaid iddyn nhw gyflwyno'u canfyddiadau trwy ddefnyddio techneg y maen nhw wedi'i dysgu yn ystod y broses hyfforddi i'r sefydliad, ac os yw'n briodol, y tîm comisiynu.

Rhaid eu hatgoffa o natur sensitif y wybodaeth hon a bod angen iddyn nhw gadw'r wybodaeth hon yn gyfrinachol.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Cynnal asesiad	Mae'n hollbwysig bod defnyddwyr gwasanaeth yn cynnal asesiad fel rhan o'u rôl fel Comisiynydd. Bydd hyn yn eu helpu i ddatblygu sgiliau asesu gwrthrychol a chyfres o safonau i sicrhau ansawdd gwasanaethau.	

COMISIYNWYR GWEITHGAREDD 3

CASGLU GWYBODAETH O'R BROSES YMGYNGHORI

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Bydd angen i ddefnyddwyr gwasanaeth gasglu'r wybodaeth o'r ymgynghoriad er mwyn dangos eu canfyddiadau i staff yr Awdurdod Lleol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Dylent feddwl am y ffyrdd gorau o arddangos eu canfyddiadau.

O'r wybodaeth a gasglwyd dylent greu cynllun gyda syniadau ar gyfer gwella'r gwasanaeth ac anfon y dogfennau hyn ymlaen hefyd.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Casglu gwybodaeth o'r ymgynghoriad	Mae'r defnyddwyr gwasanaeth wedi dangos eu bod yn gwybod sut i gasglu gwybodaeth. Mae'n bwysig eu bod yn casglu gwybodaeth er mwyn gweld beth sydd ei angen.	

COMISIYNWYR GWEITHGAREDD 4

YMCHWILIO A CHOFNODI CWYNION AC APELIADAU

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Gofynnir i ddefnyddwyr gwasanaeth ddewis sefydliad yr hoffent wneud gwaith ymchwil arno; bydd yn haws iddyn nhw ddewis y sefydliad sy'n eu cefnogi, sefydliad maen nhw'n bwriadu ei asesu, neu gwmni mawr. Yna bydd y defnyddwyr yn ymchwilio i weithdrefnau cwynion ac apeliadau'r sefydliad. Os bydd y grŵp yn penderfynu bod gan y sefydliad weithdrefn dda dylent greu siart llif o'r broses hon er mwyn iddynt allu myfyrio arni'n ddiweddarach. Gofynnwch iddynt ddisgrifio'r hyn sy'n dda yn eu barn nhw.

Os nad yw'r grŵp yn meddwl bod y gweithdrefnau a ddefnyddir gan y sefydliad yn rhai da dylent gysylltu â'r tîm i roi gwybod iddynt a dod o hyd i sefydliad arall y maen nhw'n ei hoffi cyn creu'r siart llif. Bydd angen i'r grŵp drafod pam ei bod hi'n bwysig i sefydliad ddefnyddio'r weithdrefn hon

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Ymchwilio a chofnodi cwynion ac apeliadau o fewn sefydliadau	Bydd y defnyddwyr gwasanaeth yn ymchwilio i hyn er mwyn dysgu beth yw gweithdrefn cwynion ac apeliadau dda, a chael adnoddau i'w defnyddio wrth asesu gwasanaethau yn ddiweddarach yn ystod eu hyfforddiant.	Defnydd o gyfrifiadur, siart troi, papur a phennau, Gweithdrefn gwyno

HYFFORDDIANT CYFRINACHEDD

DESCRIPTION OF ACTIVITY

Gall gweithwyr benderfynu rhoi defnyddwyr gwasanaeth ar yr un hyfforddiant cyfrinachedd y maen nhw'n ei gael; os nad yw hyn yn briodol mae'r canlynol yn sôn am yr egwyddorion sylfaenol. Fel grŵp, bydd gweithwyr yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth beth yw cyfrinachedd yn eu barn nhw.

Gall y grŵp drafod beth mae cyfrinachedd yn ei olygu iddyn nhw wrth i weithwyr gofnodi eu dehongliadau. Ar ddiwedd y drafodaeth gall y gweithiwr esbonio tarddiad y gair Saesneg am 'Cyfrinachedd' i'r grŵp. (Mae'r gair Saesneg 'confidential' yn dod o'r gair

Lladin FID sy'n golygu ymddiriedaeth). Rhannwch y grŵp yn barau a gofynnwch i bob pâr sôn am adeg pan oedden nhw'n meddwl bod eu cyfrinachedd/ymddiriedaeth wedi'i chwalu a'r teimladau a achosodd hynny. Dylai pob pâr roi adborth ar y teimladau a achosodd hynny. Yna dylai'r grŵp drafod pryd y gall cyfrinachedd gael ei chwalu, gyda pherson ifanc arall, neu gyda sefydliad.

Dylai'r defnyddwyr gwasanaeth feddwl am sut y byddant fel Comisiynwyr yn trafod telerau cyfrinachedd. Wrth siarad am gadw gwybodaeth yn ddiogel dylai pobl ifanc greu rhestr o bethau i'w

gwneud a phethau i beidio â'u gwneud o ran sut i gadw gwybodaeth yn ddiogel a thrafod pam bod hyn yn bwysig (E.E. Gallai rhywfaint o wybodaeth a gesglir yn ystod asesiad fod yn sensitif) mae'n bwysig atgoffa pobl ifanc bod hel straeon yn fath o wybodaeth ac mae angen rheoli hyn yn ofalus.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Hyfforddiant cyfrinachedd byr	Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn hyfforddiant cyfrinachedd byr er mwyn eu hamddiffyn rhag unrhyw faterion cyfrinachedd a all godi a sicrhau y gall y defnyddwyr gwasanaeth atal y materion hyn rhag codi.	Siart troi, pennau, papur a defnydd o'r we

CYFFYRDDUS/ANGHYFFYRDDUS

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Dylai defnyddwyr gwasanaeth ddychmygu bod llinell yn mynd i lawr canol yr ystafell. Mae un pen o'r llinell yn gwbl gyffyrddus ac mae'r llall yn hollol anghyffyrddus. Bydd pob defnyddiwr gwasanaeth yn ei dro yn cymryd cerdyn gyda datganiad arno sy'n disgrifio sefyllfa, ymddygiad neu benderfyniad. Yna dylent roi eu cerdyn ar y llinell ac esbonio pam eu bod yn ei roi yn y man arbennig hwnnw.

Ni ddylai unrhyw berson arall allu siarad tra bod rhywun arall yn dal cerdyn. Pan fydd yr holl gardiau wedi'u gosod dylid rhoi'r cyfle i bob defnyddiwr gwasanaeth symud cerdyn y maen nhw'n teimlo y dylai fod mewn lle gwahanol. Dylid annog defnyddwyr gwasanaeth i siarad am ba mor gyffyrddus yr oedden nhw'n teimlo yn rhoi eu barn a pham ei bod hi'n bwysig lleisio barn.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Cyffyrddus / Anghyffyrddus	Diben y gweithgaredd hwn yw annog defnyddwyr gwasanaeth i feddwl am ba mor rhwydd, neu beidio, yw hi iddyn nhw ac eraill gael dweud eu dweud yn y gymdeithas ehangach. Mae angen i ddefnyddwyr gwasanaeth gydnabod pa mor bwysig yw hi i eraill deimlo y gallant gael barn ddilys eu hunain	Rhestr o ddatganiadau cyffyrddus/ anghyffyrddus- Gweler isod

CYFFYRDDUS/ANGHYFFYRDDUS

(PARHAD)

RHESTR O DDATGANIADAU CYFFYRDDUS/ANGHYFFYRDDUS

- Mae Debbie yn 14 oed ac yn byw mewn cartref gofal preswyl. Hoffai fyw gyda'i rhieni. Mae ei rhieni ill dau yn defnyddio heroin ac mae ganddynt gollfarnau am ddefnyddio cyffuriau.
- Mae Tom yn 14 oed ac mae ganddo gyflwr meddygol difrifol sy'n golygu bod rhaid iddo gael trallwysiad gwaed. Mae'n perthyn i grŵp crefyddol sy'n anghytuno ar y driniaeth feddygol hon ac mae Tom yn gwrthod y driniaeth.
- Mae Gyasi yn 15 oed ac wedi'i orfodi i fynd i'r fyddin i ymladd dros ei wlad. Mae'n awyddus i ymuno ac yn credu bod angen amddiffyn ei deulu a'r bobl gan fod y wlad wedi bod yn wleidyddol ansefydlog ers blynnyddoedd.
- Mae Ysgol Gynradd Hopton yn ysgol wledig fach iawn â dim ond 25 o ddisgyblion yn yr ysgol gyfan. Mae Ben sy'n 9 oed yn defnyddio cadair olwyn ac yn byw'n agos at yr ysgol, ond ni all yr ysgol fforddio gwneud yr ysgol yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn heb wneud addasiadau mawr. Cynigir lle i Ben mewn ysgol sydd 15 milltir i ffwrdd, a'r drafnidiaeth i fynd yno.
- Mae 'Youth Networks' yn trefnu cwrs hyfforddi i grwpiau ieuenctid lleol. Mae wedi ceisio cadw costau'n isel fel y gall cyfranogwyr fynychu'r cwrs am ddim. Mae dau o'r cyfranogwyr yn fyddar ac angen dehonglwyr iaith arwyddion – sy'n ychwanegu'n sylweddol at y gost o gynnal y cwrs. Mae'r sefydliad wedi penderfynu codi £30 ar bob un o'r cyfranogwyr er y gallai hyn olygu na fydd rhai o'r cyfranogwyr yn gallu mynychu.
- Mae Bridget yn 12 oed, mae hi fel pe bai hi'n isel ei hysbryd ac yn gwrthod dweud wrth ei mam beth yw'r broblem. Mae ei mam yn dod o hyd i'w dyddiadur personol ac yn ei ddarllen. Mae'n dod ar draws rhan sy'n nodi bod ei merch wedi ystyried lladd ei hun.
- Mae rhaglen newydd o weithgareddau chwaraeon a hamdden i droseddwyd ifanc wedi'i lansio gan gynnwys pêl-droed, tenis, sgiliau DJ, drymio, tripiâu i barciau thema ac ymweliadau tramor.
- Ceisiwr lloches ifanc heb unrhyw gyfleoedd gwaith na thrafnidiaeth.

Mae'n syniad da cael datganiadau ychwanegol sy'n adlewyrchu'r pynciau y mae'r grŵp yn gweithio arnynt, pethau mae ganddynt ddiddordeb ynddynt neu faterion cyfoes.

YMGYNGHORI MEWN GRŴP

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Bydd angen i Gomisiynwr ymweld â grŵp arall o bobl ifanc a chynnal ymgynghoriad â nhw; dylai'r ymgynghoriad gynnwys y canlynol:

- Pa gyfleusterau/gwasanaethau lleol sy'n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth a beth maen nhw'n ei wneud i ddiwallu'r angen?
- Beth sydd angen ei wella i ddefnyddwyr gwasanaeth yn yr ardal leol a beth yw'r bylchau o ran darpariaeth?
- Pam bod ymgynghori mor bwysig iddyn nhw?
- Pa safonau hoffai defnyddwyr gwasanaeth eu gweld yn cael eu defnyddio i asesu'r gwasanaethau?

Bydd angen i'r grwpiau feddwl am ffyrdd cyffrous a pherthnasol o ystyried y cwestiynau hyn gyda defnyddwyr gwasanaeth. Efallai yr hoffent ddefnyddio rhai o'r gweithgareddau y maent wedi cymryd rhan ynddynt fel rhan o'r rhaglen hon neu'r rhaglen Pasbort.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Ymgynghori â grŵp o ddefnyddwyr gwasanaeth	Mae cynnal ymgynghoriad go iawn yn rhoi profiad uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth ddeall yn well yr hyn a ddywed eraill sydd eu hangen arnynt. Mae'n bwysig i ddefnyddwyr gwasanaeth ystyried anghenion defnyddwyr gwasanaeth eraill er mwyn bod yn 'hyrwyddwr'.	

TRAFOD Y BROSES GOMISIYNU

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Dylid dangos y cylch comisiynu i'r defnyddwyr gwasanaeth a rhoi'r cyfle iddynt ei drafod a dysgu'r hyn sydd ynghlwm wrth bob elfen. <0>When they have done this they can look at a ways to involve service users in different elements of the cycle and create more service users friendly information about it.<0>Ar ôl iddynt wneud hyn gallant ystyried ffyrdd

o gynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn gwahanol elfennau o'r cylch a chreu gwybodaeth haws i'w deall i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Time	Activity	Anticipated Outcomes	Resources
	Trafod y Broses Gomisiynu	Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i lunio i helpu defnyddwyr gwasanaeth ddeall yn well beth yw'r cylch comisiynu, a pham bod angen iddynt fod yn rhan o'r broses.	Cylch comisiynu- Gweler isod

TRAFOD Y BROSES GOMISIYNU

(PARHAD)

UNO YMGLYMIAD DEFNYDDWYR GWASANAETH

Ymgrychwr
Arweinydd Gweithredu
Cymunedol
Entrepreneur
Cymdeithasol

Dyfeisio gwasanaethau di-
dal, ymgrychu'n annibynnol,
projectau gweithgarwch
ymysg ieuenctid, darpariaeth
annibynnol a redir gan
bobl ifanc, i bobl ifanc.

Hyfforddwr
Mentor Cyfoedion
Ymddiriedolwr
Arweinydd Ymgynghori
Llysgennad
... Unrhyw rolau yn y gwasanaeth
y gall defnyddwyr gwasanaeth
eu chwarae- gan ddatblygu
'gweithlu cartref'

Cymryd rhan yng
ngwaith y gwasanaethau
- staff hyfforddi, mentora
cyfoedion, gwirfoddoli,
bod ar y Bwrdd....

Nodi blaenoriaethau
Darparu Mapiau
Asesu Tendrau

Arweinydd Ymgynghori
Comisiynydd

Recriwtio'r gweithlu a gosod
dangosyddion perfformiad
i wasanaethau

Arweinydd Recriwtio
Comisiynydd

Monitro gwasanaethau trwy asesu

Aseswr Siopwr Cudd

COMISIYNWYR GWEITHGAREDD 9

TRAFODAETH Â'R TÎM COMISIYNU

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Yn dibynnu ar oed a lefel aeddfedrwydd y grŵp; dylai gweithwyr/defnyddwyr gwasanaeth gysylltu â'u tîm comisiynu lleol a gofyn am gyfarfod gyda nhw i drafod comisiynu. Yna gellir gofyn i'r tîm comisiynu lleol drafod y pynciau a'r cwestiynau canlynol:

- Sut y caiff gwasanaethau eu comisiynu yn yr ardal leol? Pwy sy'n penderfynu ar hyn? Sut maen nhw'n gwneud y penderfyniadau?
- Siaradwch am enghreifftiau o wasanaethau lleol sydd wedi'u comisiynu
- Pam ei bod hi'n bwysig dweud wrth bobl am y gwasanaethau newydd sydd wedi'u comisiynu a sut maen nhw'n gwneud hynny?
- Sut y gall defnyddwyr gwasanaeth gymryd rhan yn y broses o benderfynu p'un a ddylid datgomiynu neu ail-gomiynu gwasanaeth?
- Pwysigrwydd asesiadau parhaus i sicrhau bod gwasanaethau'n cadw safonau

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Trafodaeth â'r tîm comisiynu	Trwy gwrdd â'r tîm comisiynu gellir dysgu sut mae comisiynu'n digwydd yn eu hardal nhw, a gall annog y tîm comisiynu lleol i weithio gyda'r grŵp o Gomisiynwyr	

COMMISSIONER ACTIVITY 10

DRAGONS DEN

DESCRIPTION OF ACTIVITY

As a group, 'mind map' or bullet point different ways in which information can be presented to others. Service users should be split into groups of a maximum of four. The service users should be asked to pick a way of presenting, this could include a power point presentation, using expressive arts, a report or any other way the service users may think of presenting each group should use a

different technique. The service users will need to present information on a business idea or social action project to the rest of their group using the chosen presentation technique. The rest of the group should feedback on the presentations giving both positive and negative points.

Time	Activity	Anticipated Outcomes	Resources
	Dragons Den presentation's	This activity enables service users to explore which presentation techniques they are most conformable with, and can recognise positive and negative points of a presentation. This will help them when they come to present as part of their roles as a Commissioner.	Flip chart, paper, pens, internet & computer access

GROUP AGREEMENT

DESCRIPTION OF ACTIVITY

Ground agreement should take approximately 10 minutes. Ground rules, team contract or agreement is a set of 'rules' that the team of young people and staff agree to whilst working together. Workers should ask service users to come up with their own ideas as to what to include in the rules. The worker should also come up with their own rules too (E.G No Drugs & Alcohol).

The worker should let service users know what the consequences of breaking the agreement are, these consequences and the rules should be recorded on flip chart, paper or by film and everyone including the workers should sign the agreement.

Time	Activity	Anticipated Outcomes	Resources
	Group Agreement	This activity supports service users to manage their own group, encouraging them to respect what it is they are doing, and have ownership over it. The other reason for doing this is so that service users can understand how to overcome conflict and work together to create an agreement. This activity will help the group start to understand what each other will tolerate when challenging each other's opinions.	Flip chart/paper, pens or filming device

CHWARAE RÔL BEIRNIADU

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Dylid gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth greu a pherfformio sefyllfaoedd mewn grwpiau o ddim mwy na phedwar, lle maen nhw wedi beirniadu rhywun ymlaen llaw. Gallai fod yn unrhyw beth o feirniadu rhywun am y car maen nhw'n ei yrru i feirniadu rhywun tra'n eistedd ar y panel cyfweld. Dylid meddwl am ddiwedd gwahanol i'r sefyllfaoedd hyn - un lle roedden nhw'n iawn i fod wedi beirniadu

ymlaen llaw ac un lle roedden nhw'n anghywir. Dylid annog y grŵp i drafod a dadlau ar ddiwedd pob sefyllfa. Ar ôl y gweithgaredd dylai pobl ifanc ystyried a thrafod beth sy'n dylanwadu ar ffordd o feddwl pobl a pham bod pobl yn cael eu beirniadu.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Chwarae rôl beirniadu	Mae'r gweithgaredd chwarae rôl hwn yn helpu defnyddwyr gwasanaeth i feddwl am ba mor aml y maen nhw'n beirniadu eraill, a sut mae angen i ni o bryd i'w gilydd feirniadu eraill er mwyn asesu rhywbeth neu rywun. Gellid cysylltu'r gweithgaredd hwn â chomisiynu.	

TECHNEG AU ASESU MAP MEDDWL

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Efallai bydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth eu ffordd eu hunain o asesu gwasanaethau (er enghraifft, ysbyty, caffi neu glwb ieuenctid), felly mae'n syniad da creu 'Map Meddwl' neu restr o bwyntiau bwled o'r syniadau sydd ganddynt. Mae ffyrdd llwyddiannus o asesu gwasanaethau yn cynnwys pethau fel siopa cudd, cyfnewid â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a chyfnewid â staff.

Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn creu safonau neu feini prawf y byddant yn eu defnyddio i sgorio'r gwasanaeth. Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn datblygu eu templed eu hunain; fodd bynnag mae'r cwestiynau canlynol yn ddefnyddiol a pherthnasol.

- A yw'r gwasanaeth yn groesawgar?
- A yw'r gwasanaeth yn hygyrch?
- A yw'n amlwg beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud?
- Pa mor fodlon ydych chi ar y gwasanaeth?
- Ydy pobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau?

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Technegau asesu map meddwl	Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu defnyddwyr gwasanaeth i ddod o hyd i berson cyfeillgar. Mae'n bwysig bod defnyddwyr gwasanaeth yn hapus gyda'r technegau y maen nhw'n eu defnyddio i ddod yn Gomisiynwyr llwyddiannus.	Siart troi, papur a phennau.

MAP MEDDWL O YMATEBION POBL ERAILL

DEISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Dylai defnyddwyr gwasanaeth gymryd amser i feddwl am yr adweithiau cadarnhaol a negyddol y gall eraill eu dangos tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan yn y broses gomisiynu. Bydd angen iddynt feddwl am sut y byddant yn delio â'r ymatebion negyddol hyn a'u troi'n bethau cadarnhaol fel y gallant sicrhau eu bod bob amser yn teimlo'n gadarnhaol am y gwaith a wnânt. Efallai yr hoffech ddefnyddio'r gweithgaredd 'Wal Friciau' a nodir yn yr adran Pasbort i wneud hyn.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Map Meddwl – Ymatebion Pobl Eraill	Mae'r gweithgaredd hwn yn ceisio annog defnyddwyr gwasanaeth i feddwl am sut y gall eraill ymateb yn negyddol i'r hyn a wnânt, i sicrhau eu bod yn barod am hyn ac yn gallu herio'n briodol. Gall defnyddwyr gwasanaeth wynebu ymatebion negyddol yn ystod y broses hon ac mae'n holl bwysig eu bod yn gwybod sut i ddelio â'r sefyllfaoedd hyn.	

MAP MEDDWL PAM BOD COMISIYNU'N BWYSIG

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Pam bod hyn yn bwysig i sefydliadau a pham bod angen i ni fod yn deg? Dylai defnyddwyr gwasanaeth restru'r rhesymau pam eu bod nhw'n meddwl bod comisiynu'n bwysig i sefydliadau a pham ei bod hi mor bwysig bod y broses yn un deg. Dylid rhoi hyn yn yr ystafell a ddefnyddir gan y grŵp i'w hatgoffa pam bod yr hyn a wnânt mor bwysig.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Map Meddwl - Pam bod comisiynu'n bwysig	Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu pobl ifanc i ystyried pam bod comisiynu'n bwysig i sefydliadau, a pham bod angen i'r broses fod yn deg. Dylent allu cyfleu'r wybodaeth hon i eraill	Siart troi, papur a phennau.

CYNLLUNIO YMGYNGHORIAD

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Dylai'r grŵp ymchwilio i'r gwahanol ffyrdd o gynnal ymgynghoriad a gwahanol dechnegau; gall hyn gynnwys pethau fel grwpiau ffocws, holiaduron a gemau fel dewislen er newid. Dylai'r grŵp drafod pa ddulliau maen nhw'n eu hoffi a pha ddulliau nad ydynt yn eu hoffi, pam hynny, a dechrau cynllunio'u hymgyngoriad eu hunain.

Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r grŵp drefnu i ymweld â grŵp lleol o bobl ifanc.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Cynllunio Ymgynghoriad	Diben y gweithgaredd hwn yw sicrhau bod y grŵp yn gallu cynnal ymgynghoriadau effeithiol. Mae hwn yn adnodd hanfodol y bydd angen i Gomisiynydd ei ddefnyddio.	Defnydd o gyfrifiadur, papur a phennau

SICRWYDD ANSAWDD

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Fel grŵp dylai'r defnyddwyr gwasanaeth ymchwilio i safonau sicrwydd ansawdd gorau a gwaethaf y byd. Gall y grŵp hefyd edrych ar y diffiniad o sicrwydd ansawdd i'w helpu. O'r wybodaeth a gânt trwy eu gwaith ymchwil dylai'r defnyddwyr gwasanaeth roi diffiniad hawdd ei ddeall o sicrwydd ansawdd.

DIFFINIADAU O SICRWYDD ANSAWDD

1. *Datganiad cadarnhaol sydd â'r bwriad o roi hyder: Cafodd sicrwydd y câi gymorth i'r project.*

2. *Addewid; gwarant Sicrhaodd y câi'r gwaith ei wneud.*

3. *Hyder llawn; dim amheuaeth gweithredu gan wybod y bydd llwyddiant.*

4. *Rhyddid rhan swildod; hunanhyder; cred yn eich gallu eich hun Gweithredoedd yn gyflym gyda sicrwydd.*

5. *Beiddgarwch ragdybiaethol; haerllugrwydd*

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Sicrwydd ansawdd yw	Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn deall beth yw sicrwydd ansawdd fel eu bod yn gallu cyflawni eu rôl fel Comisiynwyr. Mae'n bwysig bod defnyddwyr gwasanaeth yn gweithio i gyfres o safonau oherwydd bod angen iddynt roi gwybodaeth gywir a gwir	Papur, siart troi, pennau a diffiniad o sicrwydd ansawdd – Gweler isod

BETH MAE POBL YN MEDDWL OHONOF I?

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Rhowch ddau fwcet allan, un â'r label 'teg' a'r llall â'r label 'annheg'. Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn disgrifio ar ddarnau o bapur adeg pan gawson nhw eu trin yn deg, ac adeg pan gawson nhw eu trin yn annheg, ac yna'n rhoi'r darnau papur yn y bwcedi priodol. Yna dylai un o'r gweithwyr ddewis rhai o'r enghreifftiau o'r bwced, eu darllen i'r grŵp a gofyn a oes unrhyw un eisiau dweud wrth y grŵp sut roedden nhw'n teimlo ar y pryd.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Beth mae pobl yn meddwl ohonof i?	Mae'r gweithgaredd hwn yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth ystyried sut mae'n teimlo pan fo rhywun yn eu beirniadu	Bwcedi, papur a phennau

BETH MAE COMISIYNU'N EI OLYGU?

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Bydd angen i ddefnyddwyr gwasanaeth drafod beth mae comisiynu'n ei olygu iddyn nhw. Ar ôl gwneud hyn dylid rhoi'r diffiniad a geir yn y geiriadur ar gyfer comisiynu i'r grŵp a gweld sut mae'n cyd-fynd â'u dealltwriaeth nhw o'r hyn y mae comisiynu'n ei olygu. Dylai'r grŵp weithio ar greu eu diffiniad eu hunain o gomisiynu drwy gyfuno'r ddau fel eu bod nhw'n ei chael hi'n hawdd esbonio beth yw comisiynu.

DIFFINIAD O COMISIYNU YN Y GEIRIADUR

a. Y weithred o roi pwerau arbennig neu'r awdurdod i gyflawni tasg neu ddyletswydd benodol.

b. Yr awdurdod a roddir.

c. Y mater neu'r dasg a awdurdodir: Ymchwiliad i dwyll oedd eu comisiwn.

ch. Dogfen yn cyflwyno awdurdodiad o'r fath.

Esboniad ychwanegol o Comisiynu- Mae comisiynu yn ffordd strwythuredig o benderfynu sut ac ar beth y dylid gwario arian cyhoeddus. Mae comisiynu yn gylch sy'n cynnwys:

- *Asesiad (neu ailasesiad) o angen Nodi adnoddau*
- *Cynllunio sut i ddefnyddio'r adnoddau*
- *Trefnu gwasanaethau trwy broses gaffael*
- *Monitro ac adolygu'r gwasanaeth a ddarperir*

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Beth mae comisiynu'n ei olygu?	Mae'r gweithgaredd yn annog defnyddwyr gwasanaeth i ystyried beth yw comisiynu, a beth mae'n ei olygu iddyn nhw.	Siart troi, papur, pennau a diffiniad o comisiynu – Gweler isod

PWY SY’N RHAN O’R BROSES GOMISIYNU?

DISGRIFIAD O’R GWEITHGAREDD

O’r hyn y mae defnyddwyr gwasanaeth wedi’i ddysgu am gomisiynu hyd yn hyn dylent greu ‘map meddwl’ neu restr mewn pwyntiau bwled o syniadau o ran pa fath o sefydliadau sy’n rhan o’r broses gomisiynu a pham eu bod yn rhan o’r broses. EE Yr awdurdod lleol a’r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Gallwch eu hannog drwy ofyn iddynt pwy maen nhw’n meddwl sy’n gwneud penderfyniadau o ran yr hyn sydd ei angen a faint o arian sy’n cael ei wario.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Pwy sy’n rhan o’r broses gomisiynu?	Diben y gweithgaredd hwn yw sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn deall ac yn cofio pwy sy’n rhan o’r broses gomisiynu a pham. Mae’n bwysig bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu esbonio hyn i eraill	Siart troi, papur a phennau.

Beth yw Comisiynu

Beth yw Comisiynu

- ▶ Wel - yn syml y broses o
“gynllunio gwasanaethau, talu amdany'n nhw
a'u monitro”

Dewis beth i'w brynu, pwy fydd yn ei gyflenwi i chi a
gwneud yn siŵr eich bod yn cael borgen dda.

**Gadewch i ni edrych ar
enghraifft ymarferol.**

Meddylwch am brynu ffôn symudol newydd



► Yn gyntaf oll
angen i chi k
ar ba nodwe
hoffech eu c
ffôn newydd

(Dyma eich m

**Yna mae angen i chi benderfynu ar ba rai
yw'r pethau pwysicaf a'r lleiaf pwysig i chi er
mwyn gwneud eich penderfyniad**

Rhestr o ofynion posibl

System weithredu	Capasti storio
Megapixelsau y camera aen	Gallu gwefru
Megapixelsau camera efn	Golwg
Porth clustffonau	Brand
3G / 5G	Y model diweddaraf
Amlder y gellir ei ymestyn	Maint y sgrin
Amlder y batri	Rhaglenni

Fy mlaenoriaethau:

- 1.Brand**
- 2.Maint y sgrin**
- 3.Ansawdd y camera**
- 4.Porth clustffonau**
- 5.5G**
- 6.Amrywiaeth dda o raglenn**

**(Dyma eich meini praw
/ asesu)**

Yna rydych
yn mynd
allan ac yn
edrych ar yr
hyn sydd ar
gael ac yn
gwneud eich
dewis



Wrth wario miloedd neu hyd yn oed miliynau ar wasanaeth ar gyfer pobl ifanc, mae'r rhan nesaf ychydig yn wahanol i brynu ffôn symudol.

- Rydych yn gwahodd unrhyw un a allai gynnig y gwasanaeth i edrych ar eich manyleb, ac maen nhw'n dweud wrthyhch p'un a allant ei chyflawni.



- Mae pob un ohonynt yn anfon dogfen tendro sy'n esbonio sut y byddai'n cynnig y gwasanaeth rydych yn ei ddymuno a hefyd yn dweud wrthyhch faint bydd yn costio.

(Dyma beth yw'r broses tendro)

Mae fel dweud wrth bob siop ffonau yr hyn sydd ei eisiau arnoch wedyn greu pecyn yn arbennig i chi.



Amser penderfynu

- ▶ Mae angen i chi edrych yn ôl ar y rhestr o bethau yr oeddech am eu cael.
- ▶ Yna rydych yn meddwl am ansawdd y gwasanaeth y gallwch ei disgwyl gan y gwahanol gyflenwyr ac rydych yn dewis pwy fydd yn darparu eich gwasanaeth.



Fy mlaenoriaethau:

- ✓ Brand
- ✓ Maint y sgrin
- ✓ Ansawdd y camera
- ✓ Porth clustffonau
- ✓ 5G
- ✓ Amrywiaeth dda o raglenni ar

- ▶ Os ydych chi ar gallech ddymur ac amodau cyr contract.

(Dyma beth yw c

Ond nid dyma ddiwedd y gwaith

- ▶ Petai'r ffôn yn methu - neu bod angen cael gwell gwasanaeth byddech yn mynd yn ôl at y cyflenwr a dweuc wrtho.
- ▶ Neu gallech ddarganfod bod eich anghenion wedi newid - felly byddech yn gofyn p'un a all y contractwr fod yn hyblyg a newid y gwasanaeth ychydig.

(Dyma beth yw rheoli a monitro contractau)

Felly pan ydym yn comisiynu gwasanaeth newydd ar gyfer pobl ifanc - mae angen i ni:

Rhestr o ofynion posibl	
System weithredu	Capasti storio
Megapicselau y camera blaen	Gallu gwefru
Megapicselau y camera cefn	Golwg
Orth clustffonau	Brand
5G / 5G	Y model diweddaraf
Yn ffordd y gallir ei hystyngiadau	Maint y sgrin
Yn ffordd y gallir ei hystyngiadau	Rhaglenni

reun manyleb - beth
ae'n rhaid i'r
wasanaethau

Fy mlaenoriaethau:

- ✓ Brand
- ✓ Maint y sgrin
- ✓ Ansawdd y camera
- ✓ Porth clustffonau
- ✓ 5G
- ✓ Amrywiaeth dda o raglenni ar gael



- Osod ein meini prawf - penderfynu ar beth sydd bwysicaf i ni
- Gwahodd cyfnewidiadau fel y gallant gael effaith beth gallant wneud

Felly pan ydym yn comisiynu gwasanaeth newydd ar gyfer pobl ifanc - mae angen i ni:



Fy mlaenoriaethau:

- ✓ Brand
- ✓ Maint y sgrin
- ✓ Ansawdd y camera
- ✓ Porth clustffonau
- ✓ 5G
- ✓ Amrywiaeth dda o raglenni ar gael



werthuso'r tendrau -
sicrhau bod y cyflenwyr
i cynnig bargaen dda

► Ddewis cyflenwr - gan sicrhau
bod gennym reswm da am
ein dewis a'i fod yn deg

► Monitro a rhe
gwneud yn si
y gwasanaeth
addawyd i ni

Wrth gwrs - pan fyddwn yn dweud ein
hanghenion, yr hyn rydym yn ei olygu
yw eich anghenion.
Anghenion pobl ifanc

DYMA PAM MAE ANGEN EICH HELP ARNOM I SICRHAU BOD COMISIYNU YN
GWEITHIO.

PRIODOL/AMHRIODOL

ANGEN

Hyfforddiant pellach a chael dealltwriaeth o raglen y cyfwelwyr.

NOD

Rhoi cyfleoedd ystyrlon i ddefnyddwyr gwasanaeth gymryd rhan mewn proses anffurfiol ac addysgiadol sy'n eu galluogi i ddeall yr Agenda Cyfranogi a dylanwadu ar benderfyniadau a chynlluniau a wneir gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ninas Caerdydd.

AMCANION

- Hyfforddiant mewn cyfranogi, cyfwelwyr a meithrin tîm
- Cynyddu dealltwriaeth y defnyddwyr gwasanaeth o'r Agenda Cyfranogi lleol;
- Galluogi defnyddwyr gwasanaeth i ystyried eu perfformiad a'u cynnydd;
- Galluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddod i adnabod ei gilydd a rhannu profiad cyffredin;

DULL

Cynnal cyfres o weithdai addysgol, difyr a rhyngweithiol anffurfiol.

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Gan ddefnyddio'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu o'u hymchwil fideo a gweddill eu hyfforddiant dylai defnyddwyr gwasanaeth wneud rhestr o'r hyn sy'n briodol ac amhriodol mewn cyfweiliad, o safbwynt y sawl sy'n cyfweled a'r sawl sy'n cael ei gyfweled. Mae'n bwysig bod y rhestr hon yn cynnwys pwysigrwydd gweithdrefnau cyfrinachedd

a pham nad ydyw'n briodol i fynd yn erbyn y gweithdrefnau hyn. Dylid arddangos y rhestr hon yn yr ystafell y mae'r bobl ifanc yn ei defnyddio.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Priodol/Amhriodol	Diben hyn yw sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael dealltwriaeth dda o'r hyn sy'n briodol ac amhriodol yn ystod y broses gyfweled.	Pennau, papur, blue tac

CREU HYSBYSEB SWYDD

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Mae angen i'r defnyddwyr gwasanaeth feddwl am beth sy'n bwysig i'r rôl a nodi rhai pwyntiau sydd eu hangen ar yr ymgeisydd. Rhaid i'r defnyddwyr gwasanaeth greu dwy hysbyseb swydd syml ar gyfer dwy gynulleidfa darged wahanol iawn. Bydd angen iddynt edrych ar hysbysebion swydd enghreifftiol i'w helpu gyda'r cynllun a'r strwythur. Gan ddefnyddio un o'u disgrifiadau swydd dylai'r grŵp ystyried pa wybodaeth fyddai angen iddynt ei chynnwys pe baent yn gwahodd rhywun i gyfweiliad ar gyfer y rôl hon.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Creu hysbysebion swyddi	Gwneir y gweithgaredd hwn oherwydd efallai y bydd gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth gymryd rhan ym mhob cam o'r broses recriwtio wrth gyfweild felly bydd angen iddynt wybod sut i greu disgrifiadau swydd sy'n briodol i wahanol rolau. Mae'n bwysig bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu dangos eu bod yn teimlo bod hwn yn sgil bwysig ar gyfer y swydd ac yn gallu llunio'r wybodaeth mewn ffordd glir ac effeithiol.	Hysbysebion swydd (gweler isod), pennau, papur neu gyfrifiadur

CREU HYSBYSEB SWYDD

(PARHAD)

HYSBYSEB SWYDD

Gweinyddwr Arweiniol (Cyf Swydd 12 – 14)

Cyflog - £19,466

Llawr Amser (37 awr yr wythnos) yng Nghaerdydd.

Bydd dyletswyddau yn cynnwys gweinyddu projectau allweddol a ariennir, casglu gwybodaeth, creu ystadegau, cydgysylltu â noddwyr allanol, a dyletswyddau gweinyddol eraill i sicrhau bod projectau gwaith ieuenctid yn cael eu rhedeg yn ddidrafferth a'u cyflawni'n llwyddiannus. Byddwch yn gallu cadw cofnodion cywir gan ddefnyddio taenlenni a chronfeydd data ac yn gallu rhoi systemau a phrosesau effeithlon ar waith. Rhaid i chi feddu ar sgiliau TG a chyfathrebu rhagorol.

Byddwch yn mwynhau gweithio ar eich liwt eich hun, yn hyblyg o ran eich ymagwedd ac yn hyderus yn eich gallu i weithio i derfynau amser.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12pm ddydd Llun 30 Ebrill

For an informal conversation about the role please contact Lee Richards on 07817 312251.

I gael Disgrifiad Swydd llawn a Phhecyn Cais cysylltwch â Lee Richards ar leerichards@cardiff.gov.uk neu 07817 312251.

HYSBYSEB SWYDD

Mae Young Cardiff a'r Dreamcatcher Consortium yn chwilio am y canlynol:

Gweithwyr Cymorth Ieuenctid

Ar gyfer project 3 blynedd newydd cyffrous a gefnogir gan y Gronfa Loteri Fawr i weithio gyda phobl ifanc sy'n gadael gofal, i'w cefnogi i gydnabod a chyflawni eu breuddwydion.

I weithio mewn gwahanol ardaloedd ledled y sir.

Cyflog- £19,466 Pro-rata

TRAFODAETH AR WAHANIAETHU

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Wrth wneud y gweithgaredd hwn rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth deimlo y gallant ymddiried yn ei gilydd, gall gweithwyr ddewis gwneud y gweithgaredd hwn gyda bwyd neu de i helpu defnyddwyr gwasanaeth deimlo'n fwy cyffyrddus. Fel grŵp mae angen i ddefnyddwyr gwasanaeth gael eu hannog i siarad am adegau lle roedden nhw'n cael eu gwahaniaethu a sut deimlad oedd hynny. Gall gweithwyr ddewis rhannu profiadau personol os ydyn nhw'n teimlo bod hyn yn briodol

gan helpu'r grŵp i ymlacio. Yn gwyno iawn dylai defnyddwyr gwasanaeth siarad am y gwahanol ffyrdd y mae pobl yn cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn a pham. Ni ddylid treulio rhyw lawer o amser yn gwneud hyn gan y byddwch wedi trafod y pwnc mewn hyfforddiant blaenorol.

Yn yr ail ran o'r gweithgaredd hwn dylai pobl ifanc ystyried y gwahaniaethau rhwng gwahaniaethu uniongyrchol, anuniongyrchol ac aflonyddu. Cyn rhannu'n grwpiau gall pobl ifanc edrych ar ystyr

gwahaniaethu uniongyrchol, anuniongyrchol ac aflonyddu. Pan fydd y grŵp yn teimlo'n eithaf cyffyrddus gyda'r diffiniadau gall gweithwyr rannu'r grŵp yn dri grŵp llai, dylai un grŵp weithio ar wahaniaethu uniongyrchol, un ar wahaniaethu anuniongyrchol ac un ar aflonyddu. Yn y grwpiau hyn dylent greu sefyllfa gan chwarae rôl i ddiffinio'r hyn maen nhw'n ei ddangos. Bydd pob grŵp yn cyflwyno'u gweithgaredd chwarae rôl i weddill y defnyddwyr gwasanaeth.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Trafodaeth ar wahaniaethu	Diben y drafodaeth yw sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn: - ymwybodol o wahaniaethu a sut y gall hyn ddigwydd yn ystod y broses gyfweld. - Dylai hyn hefyd ei gwneud hi'n haws i'r grŵp ymddiried yn ei gilydd a fydd yn bwysig os ydyn nhw'n cynnal cyfweiliadau gyda'i gilydd	Siart troi, diffiniad o wahaniaethu uniongyrchol, anuniongyrchol ac aflonyddu - Gweler yr adran adnoddau

TRAFODAETH AR WAHANIAETHU

(PARHAD)

GWAHANIAETHU UNIONGYRCHOL

Mae person (A) yn gwahaniaethu yn erbyn person arall (B), oherwydd nodwedd a ddiogelir, mae A yn trin B yn llai ffafriol nag y mae/byddai A yn trin eraill.

Mae'r Llywodraeth yn penderfynu cadw'r dull cyfredol o gael cymharydd gan ei fod yn credu bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod gwahaniaethu yn ymwneud â thriniaeth gyfartal yn hytrach na thriniaeth deg. Drwy gadw'r gofyniad hwn am gymharydd, mae gennym ffordd o fesur triniaeth wahanol.

Hefyd, mae'r diffiniad yn defnyddio'r geiriau 'oherwydd' ac nid y geiriau a ddefnyddiwyd gynt sef 'ar sail'. Crëwyd nifer o gyfreithiau ar ystyr y cymal 'ar sail' ac amser a ddengys a fydd y newid hwn yn creu ymgyfreitha yn y triwlynlysoedd cyflogaeth. Nododd y llywodraeth nad oedd yn golygu newid y gyfraith presennol, ond yn hytrach gwneud yr iaith yn haws ei deall i'r person cyffredin. Eto'i gyd, mae'r nodiadau esboniadol yn nodi sut mae'n newid y gyfraith drwy ganiatáu ceisiadau ar sail cysylltiad a chanfyddiad

GWAHANIAETHU ANUNIONGYRCHOL

Mae cymal 19 yn cysoni'r diffiniadau o wahaniaethu anuniongyrchol mewn perthynas â phob nodwedd a ddiogelir a phob maes gweithgarwch sy'n rhan o'r gyfraith ar wahaniaethu, a bydd yn estyn cwmmpas gwahaniaethu anuniongyrchol i gynnwys anabledd ac ailbennu rhywedd.

Mae'r diffiniad newydd yn berthnasol i'r nodweddion a ddiogelir ac yn golygu:

1. Mae person (A) yn gwahaniaethu yn erbyn person arall (B) os yw A yn defnyddio darpariaeth, maen prawf neu arfer gyda B sy'n gwahaniaethu mewn perthynas â nodwedd a ddiogelir B.
2. At ddiben isadran (1), mae darpariaeth, maen prawf neu arfer yn gwahaniaethu mewn perthynas â nodwedd a ddiogelir perthnasol B os:-
 - a. Mae/byddai A yn ei ddefnyddio gyda phobl nad yw B yn rhannu'r nodwedd â hwy;
 - b. Mae/byddai'n rhoi'r bobl y mae B yn rhannu'r nodwedd gyda hwy dan anfantais o gymharu â phobl nad yw B yn rhannu'r nodwedd gyda hwy;

c. Mae/byddai'n rhoi B dan yr anfantais honno; a

d. Ni all A ddangos ei fod yn ffordd gymesur o gyflawni nod cyfreithlon.

Mae'r cymal "byddai'n rhoi" wedi'i gynnwys i amddiffyn "ymgeiswyr a rwystrowyd" a allai benderfynu peidio ag ymgeisio am swydd oherwydd byddai darpariaeth, maen prawf neu arfer yn eu hatal rhag llwyddo.

AFLONYDDU

Mae'r nodweddion a ddiogelir perthnasol fel a ganlyn:-

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Nid yw beichiogrwydd a mamolaeth neu briodas a phartneriaeth sifil wedi'u cynnwys.

Ar hyn o bryd, mae'r darpariaethau aflonyddu dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 yn ehangach na dan gyfreithiau gwahaniaethu eraill ac mewn rhai achosion, mae cyflogwyr wedi bod yn atebol am beidio ag atal gweithwyr rhag cael eu haflynyddu dro ar ôl tro gan drydydd parti. Mae'r Ddeddf yn cynnig yr un amddiffyniad ar gyfer pob ffurf ar wahaniaethu.

Drwy ddiffinio aflonyddu fel "ymddygiad diangen yn gysylltiedig â nodwedd a ddiogelir perthnasol", gellir cynnwys aflonyddu yn seiliedig ar ganfyddiad a chysylltiad h.y. byddai unigolyn sy'n cael ei aflonyddu oherwydd bod pobl yn meddwl ei fod yn hoyw yn gallu gwneud honiad.

CYFWELWYR GWEITHGAREDD 4

CYNGHORION O RAN ATAL GWAHANIAETHU

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Dylai defnyddwyr gwasanaeth nawr feddwl am sut y gallai gwahaniaethu ddigwydd yn ystod cyfweiliad a gwneud map meddwl o'r gwahaniaethu hwn. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, dylai defnyddwyr gwasanaeth wneud rhestr o gynghorion o ran atal gwahaniaethu yn ystod y broses gyfweled. Yna dylid arddangos y rhestr yn yr ystafell a ddefnyddir gan y defnyddwyr gwasanaeth i'w hatgoffa.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Cynghorion o ran atal gwahaniaethu	Mae'n bwysig bod defnyddwyr gwasanaeth wrth gymryd rhan yn y broses gyfweled yn gwneud y canlynol: • Maent yn meddwl am sut y gallant osgoi gwahaniaethu. • Mae angen i ddefnyddwyr gwasanaeth gydnabod pryd maen nhw'n gwahaniaethu ac atal hyn rhag digwydd.	Pennau a phapur

CYFWELWYR GWEITHGAREDD 5

CYFWELD Â MI

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Dylid gofyn i dri pherson ddod i mewn i'r sesiwn i action fel ymgeiswyr mewn cyfweiliad. Dylai'r gweithwyr ofyn i bob ymgeisydd actio mewn gwahanol ffyrdd; ni ddylai'r defnyddwyr gwasanaeth wybod hyn. Dylai defnyddwyr gwasanaeth gynnal y cyfweiliad a phenodi rhywun i'r swydd. Rhaid i'r defnyddwyr gwasanaeth gynnal y cyfweiliad gan ddefnyddio'r cwestiynau cyfweld a matrices sgorio a grëwyd ganddynt, a rhaid i bob defnyddiwr gwasanaeth groesawu ymgeisydd ac esbonio'r

broses gyfweld iddyn nhw. Rhaid atgoffa'r defnyddwyr gwasanaeth i ddefnyddio'r sgiliau maen nhw wedi'u dysgu yn eu hyfforddiant Manteisio ar Gyfranogi am iaith y corff a sgiliau cyfathrebu i sicrhau bod yr unigolyn sy'n cael ei gyfweld yn teimlo'n gyffyrddus, rhaid iddynt hefyd ddangos eu bod yn gallu gofyn cwestiynau'n glir gan ail-eirio cwestiynau os nad yw'r sawl sy'n cael ei gyfweld yn deall. Yna rhaid i'r defnyddwyr gwasanaeth greu rhestr fer o'r ymgeiswyr a phenderfynu rhyngddynt pa un o'r ymgeiswyr ddylai gael y

swydd. Bydd angen i'r defnyddwyr gwasanaeth roi adborth i'r ymgeisydd llwyddiannus a'r ymgeiswyr aflwyddiannus. Mae'n bwysig bod y gweithiwr yn rhoi adborth i'r defnyddwyr gwasanaeth am eu perfformiad yn ystod y cyfweiliad ac os oes angen i ddefnyddiwr gwasanaeth wella bydd y gweithiwr yn eu helpu i wneud hynny. Mae'n bwysig bod y defnyddwyr gwasanaeth yn trafod y manteision a'r anfanteision o ddefnyddio proses gyfweld fel ffordd o recriwtio aelod newydd o staff a pha ddulliau eraill o recriwtio a allai fod yn effeithiol.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Cyfweld â MI!	Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi'r cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth gael profiad o gyfweld a gorfod dewis rhwng ymgeiswyr. Bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn dysgu sut i gyfathrebu, sgorio a rhoi adborth i ymgeisydd.	Cwestiynau cyfweld, disgrifiadau swydd, pennau, papur – Gweler isod

DISGRIFIAD SWYDD**TEITL SWYDD**

Gweinyddwr Arweiniol

LLEOLIAD

Caerdydd

GRADDFA

21 – 25 (37 awr) - £19,466 y flwyddyn

YN ATEBOL I'R

Cydlynnydd Cynhwysiant Ieuencid

YN GYFRIFOL AM

Hyfforddeion a Gwirfoddolwyr

DIBEN Y SWYDD

Goruchwyllo'r gwaith o weinyddu contractau yn Young Devon's Change Academy a rhoi systemau a phrosesau gweinyddol ar waith i sicrhau bod y tîm yn gweithio'n effeithiol ac effeithlon

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. Gweinyddu Contractau:

- Goruchwyllo'r gwaith o nodi a dadansoddi gwybodaeth trwy amryw gronfeydd data allanol sy'n perthyn i gcontractau
- Cynnal cofnodion papur/ffeiliau cyfrinachol o bobl ifanc sy'n rhan o'r project gyda llaw ac ar gyfrifiadur

- Casglu a mewnbynnu data o wybodaeth ystadegol, taflenni monitro, cofnodion dysgwyr a gwaith papur achredu, gan ddefnyddio cronfeydd data a thaenlenni
- Creu a chynnal 'banc' partner effeithiol o gyfleoedd gwirfoddoli, cyflogaeth a dysgu gan ddefnyddio systemau papur a TG
- Cynhyrchu data monitro fel rhan o'r gwaith o adrodd i noddwyr yn unol â gofynion cytundebol.
- Meithrin perthnasau effeithiol ag adrannau gweinyddol sefydliadau partner/noddwyr.
- Creu adroddiadau rheolaidd i'r Tîm Rheoli a Chyfarwyddwr Gwasanaethau er mwyn monitro gweithgareddau a pherfformiad yn erbyn contractau.
- Mynychu cyfarfodydd mewnol ac allanol a rhoi cymorth gweinyddol ynddynt
- Nodi a datblygu perthnasau proffesiynol yn fewnol a gydag asiantaethau eraill i sicrhau bod contractau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol
- Cynorthwyo'r tîm rheoli i ddrafftio ceisiadau am nawdd mewn perthynas â'r project.
- Yn gyfrifol am oruchwyllo cyllid y tîm, cronfeydd arian ac archebion prynu.

- Yn gyfrifol am gofnodi a chynhyrchu ystadegau mewn perthynas â thargedau cytundebol
- Helpu gyda'r gwaith o greu ceisiadau am nawdd, tendrau/cynigion – cynnal system effeithlon a chydgyssylltu â'r Swyddfa Ganolog.

2. Nawdd a Chyllid:

- Sicrhau bod gweithdrefnau ariannol, gan gynnwys pryniadau, cronfeydd gweithgarwch ac anfonebau, yn cael eu prosesu a'u monitro
- Rhoi adroddiadau rheolaidd ar wybodaeth reoli i'r Tîm Rheoli neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau i gynorthwyo â chynllunio ariannol
- Cynnal atodlen adrodd gan sicrhau bod noddwyr yn derbyn nodiadau atgoffa mewn modd amserol a bod dogfennau ategol yn cael eu paratoi ar eu cyfer
- Ymdrin â chyllideb fach mewn perthynas â gwariant gweinyddol.

3. Dyletswyddau, cyfrifoldebau a thasgau cyffredinol :

- Meithrin perthnasau allanol da gyda noddwyr a sefydliadau lleol
- Creu adroddiadau a chyflwyniadau yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell

- Sicrhau eich bod yn gwybod am y deddfwriaethau ac arferion da diweddaraf ac am ffyrdd newydd ac arloesol o weithio.

- Gweithio gyda pholisïau a gweithdrefnau Young Devon.

- Delio â digwyddiadau a chwynion yn achlysurol yn y Change Academy

- Ymgymryd â thasgau a chyfrifoldebau eraill wrth i'r gwaith ddatblygu sy'n briodol i'r swydd.

- Cynorthwyo â chreu cynlluniau gwaith i staff gweinyddol a goruchwyllo a monitro perfformiad y tîm gweinyddol.

AMODAU A'R AMGYLCHEDD GWAITH

- Bydd disgwyl i'r deiliad swydd weithio 37 awr yr wythnos.
- Dydd Llun i ddydd Gwener fel arfer, ond bydd disgwyl i chi weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau yn achlysurol
- Fel rhan o'r swydd bydd angen teithio i Ddyfnaint o bryd i'w gilydd ac ymhellach yn achlysurol.

CWESTIYNAU CYFWELD A MATRICS SGORIO

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Dylid rhoi disgrifiad swydd i'w ddarllen i'r defnyddwyr gwasanaeth. Ar ôl edrych ar y disgrifiad swydd hwn, dylai defnyddwyr gwasanaeth allu creu cwestiynau ar gyfer cyfweiliad sy'n ymwneud â'r swydd. Efallai bydd defnyddwyr gwasanaeth yn dibynnu'n helaeth ar eu gweithwyr am gymorth gyda hyn, felly dylai gweithwyr gael rhywfaint o brofiad o fod yn rhan o banel cyfweld neu ymchwilio i esiamplau o gwestiynau cyfweld cyn y sesiwn. Ar ôl ysgrifennu'r cwestiynau cyfweld, dylai defnyddwyr gwasanaeth greu matrices sgorio i gyd-fynd â'u cwestiynau.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Cwestiynau cyfweld a matrices sgorio	Diben y gweithgaredd hwn yw sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn deall sut i ysgrifennu cwestiynau cyfweld, beth yw disgrifiadau swydd a sut i ddefnyddio matrices sgorio.	Disgrifiadau swydd enghreifftiol, matrices sgorio enghreifftiol, cyfrifiadur i'w ddefnyddio, papur a phennau - Gweler isod

CWESTIYNAU CYFWELD A MATRICS SGORIO

(PARHAD)

DISGRIFIAD SWYDD

TEITL SWYDD

Gweinyddwr Arweiniol

LLEOLIAD

Newton Abbot Change Academy

GRADDFA

21 – 25 (37 awr) – £19,466 y flwyddyn

YN ATEBOL I'R

Cydlynnydd Cynhwysiant Ieuencid

YN GYFRIFOL AM

Hyfforddeion a Gwirfoddolwyr.

DIBEN Y SWYDD

Goruchwyllo'r gwaith o weinyddu contractau yn Young Devon's Change Academy a rhoi systemau a phrosesau gweinyddol ar waith i sicrhau bod y tîm yn gweithio'n effeithiol ac effeithlon

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. Gweinyddu Contractau:

- Goruchwyllo'r gwaith o nodi a dadansoddi gwybodaeth trwy amryw gronfeydd data allanol sy'n perthyn i gcontractau
- Cynnal cofnodion papur/ffeiliau cyfrinachol o bobl ifanc sy'n rhan o'r project gyda llaw ac ar gyfrifiadur

- Casglu a mewnbynnu data o wybodaeth ystadegol, taflenni monitro, cofnodion dysgwyr a gwaith papur achredu, gan ddefnyddio cronfeydd data a thaenlenni
- Creu a chynnal 'banc' partner effeithiol o gyfleoedd gwirfoddoli, cyflogaeth a dysgu gan ddefnyddio systemau papur a TG
- Cynhyrchu data monitro fel rhan o'r gwaith o adrodd i noddwyr yn unol â gofynion cytundebol.
- Meithrin perthnasau effeithiol ag adrannau gweinyddol sefydliadau partner/noddwyr.
- Creu adroddiadau rheolaidd i'r Tîm Rheoli a Chyfarwyddwr Gwasanaethau er mwyn monitro gweithgareddau a pherfformiad yn erbyn contractau.
- Mynychu cyfarfodydd mewnol ac allanol a rhoi cymorth gweinyddol ynddynt
- Nodi a datblygu perthnasau proffesiynol yn fewnol a gydag asiantaethau eraill i sicrhau bod contractau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol
- Cynorthwyo'r tîm rheoli i ddrafftio ceisiadau am nawdd mewn perthynas â'r project.
- Yn gyfrifol am oruchwyllo cyllid y tîm, cronfeydd arian ac archebion prynu.

- Yn gyfrifol am gofnodi a chynhyrchu ystadegau mewn perthynas â thargedau cytundebol
- Helpu gyda'r gwaith o greu ceisiadau am nawdd, tendrau/cynigion – cynnal system effeithlon a chydgyssylltu â'r Swyddfa Ganolog.

2. Nawdd a Chyllid:

- Sicrhau bod gweithdrefnau ariannol, gan gynnwys pryniadau, cronfeydd gweithgarwch ac anfonebau, yn cael eu prosesu a'u monitro
 - Rhoi adroddiadau rheolaidd ar wybodaeth reoli i'r Tîm Rheoli neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau i gynorthwyo â chynllunio ariannol
 - Cynnal atodlen adrodd gan sicrhau bod noddwyr yn derbyn nodiadau atgoffa mewn modd amserol a bod dogfennau ategol yn cael eu paratoi ar eu cyfer
 - Ymdrin â chyllideb fach mewn perthynas â gwariant gweinyddol.
3. Dyletswyddau, cyfrifoldebau a thasgau cyffredinol
- Meithrin perthnasau allanol da â noddwyr a sefydliadau lleol
 - Creu adroddiadau a chyflwyniadau yn ôl cyfarwyddyd y rheolwr llinell

- Sicrhau eich bod yn gwybod am y deddfwriaethau ac arferion da diweddaraf ac am ffyrdd newydd ac arloesol o weithio.

- Gweithio gyda pholisïau a gweithdrefnau Young Devon.

- Delio â digwyddiadau a chwynion yn achlysurol yn y Change Academy

- Ymgymryd â thasgau a chyfrifoldebau eraill wrth i'r gwaith ddatblygu sy'n briodol i'r swydd.

- Cynorthwyo â chreu cynlluniau gwaith i staff gweinyddol a goruchwyllo a monitro perfformiad y tîm gweinyddol.

AMODAU A'R AMGYLCHEDD GWAITH

- Bydd disgwyl i'r deiliad swydd weithio 37 awr yr wythnos.
- Dydd Llun i ddydd Gwener fel arfer, ond bydd disgwyl i chi weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau yn achlysurol
- Fel rhan o'r swydd bydd angen teithio i Ddyfnaint o bryd i'w gilydd ac ymhellach bant yn achlysurol.

CYFWELWYR GWEITHGAREDD 7

BEIRNIADU

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Yn y gweithgaredd hwn dylai defnyddwyr gwasanaeth eistedd mewn parau yn wynebu ei gilydd. Bydd un o bob pâr yn 'A' a'r llall yn 'B'. Bydd 'A' yn y pâr yn ceisio dyfalu pethau am eu partner. Gall gweithiwr ofyn iddynt ddyfalu, pa fath o gylchgrawn neu bapur newydd y mae eu partner yn ei ddarllen, beth yw eu hoff wefan rhwydweithio cymdeithasol a beth fyddai eu swydd ddelfrydol. Ni fydd 'B' yn dweud p'un a ydynt yn gywir ai peidio nes bydd 'A' yn bwydo'n ôl i weddill y grŵp ac yna bydd 'B' yn datgelu p'un a ydynt wedi'u beirniadu'n gywir neu'n anghywir. Yna bydd 'A' a 'B' yn newid rolau ac yn ailadrodd y gweithgaredd.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Beirniadu	Diben y gweithgaredd hwn yw addysgu defnyddwyr gwasanaeth am y canlynol: - Pa mor aml yr ydym yn beirniadu eraill a'r argraff a gawn ohonynt o'r herwydd - Rydym yn defnyddio'r gweithgaredd hwn gan ei fod yn floc adeiladu da ar gyfer y gweithgaredd ar wahaniaethu	

CYFWELWYR GWEITHGAREDD 8

CARDIAU BARN

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Bydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth set o gardiau barn y byddant yn eu defnyddio gydol y gweithgaredd hwn. Caiff y defnyddiwr gwasanaeth ddewis o dair colofn o'r enw 'Rwy'n gwerthfawrogi hyn o ran fi fy hun', 'Rwy'n gwerthfawrogi hyn o ran eraill' ac 'Nid wyf yn gwerthfawrogi hyn o gwbl'. Yn eu tro rhaid i bawb ddewis cerdyn barn a'i roi yn un o'r colofnau gan esbonio pam eu bod yn ei roi yn y golofn honno.

Er enghraifft os yw'r datganiad yn dweud 'Partneriaethau Sifil' gallai'r bobl ifanc roi'r

cerdyn yn y golofn 'Rwy'n gwerthfawrogi hyn o ran fi fy hun' gan ddweud "Oherwydd rwy'n gobeithio cael partneriaeth sifil."

Ar ôl i'r holl gardiau gael eu rhoi yn y colofnau, caiff defnyddwyr gwasanaeth y cyfle i symud cardiau i golofn wahanol os ydynt yn anghytuno â barn rhywun arall gan esbonio pam eu bod yn anghytuno. Ar ddiwedd y gêm rhaid i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth gytuno eu bod yn hapus o ran lle mae'r cardiau wedi'u rhoi. Os oes cerdyn nad ydynt yn hapus ag ef, rhaid tynnu'r cerdyn o'r golofn a

chael trafodaeth. Y gweithiwr fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol o ran lle dylid rhoi'r cerdyn hwn. Yna dylai'r defnyddwyr gwasanaeth drafod y gwahaniaeth o ran sut deimlad oedd gwneud y penderfyniad rhyngddynt eu hunain a chael rhywun yn gwneud y penderfyniad drostynt a beth oedd y manteision, os oedd unrhyw fanteision. Os oes llawer o amser wedi mynd heibio ers i'ch defnyddwyr gwasanaeth gwblhau eu gweithgaredd Manteisio ar Gyfranogi efallai yr hoffai gweithwyr ailedrych ar y gweithgaredd Dadl y Ffon Gotwm.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Cardiau Barn	Diben y gweithgaredd hwn yw helpu defnyddwyr gwasanaeth gyda'r canlynol: - Gwneud penderfyniadau mewn modd proffesiynol a diragfarn - Caiff y defnyddwyr canlynol gyfle i feddwl am safbwyntiau eraill - Mynegi eu barn a thrafod eu safbwyntiau gwahanol mewn modd diogel - Bydd y gweithgaredd hwn yn annog defnyddwyr gwasanaeth i feddwl am wahanol ffyrdd o wneud penderfyniadau	Cardiau Barn – Gweler isod

CYFWELWYR GWEITHGAREDD 8

CARDIAU BARN

(PARHAD)

CARDIAU BARN

Gellir argraffu'r datganiadau hyn ar wahanol ddarnau papur.

ERTHYLU	BEICHIOGRWYDD YMYSG MERCHED YN EU HARDDEGAU	MERCHED DDYLAI WNEUD Y GWAITH Tŷ	DERBYN LWFANS CEISWYR GWAITH AM DROS FLWYDDYN
TALU AM RYW	CAEL RHYW MEWN MAN CYHOEDDUS	PORNOGRAFFI	YFED YN WYLLT
ANFFRWYTHLONI DAN ORFOD	RHEGI	CYFFURIAU AC ALCOHOL	Y GIG
RHOI CONDOMS I RAI DAN 16	CARCHARORION YN CAEL YR HAWL I BLEIDLEISIO	TRAIS YN Y CARTREF	DIGARTREFEDD
GORFWYTA	TANFWYTA	LLAWDRINIAETH GOSMETIG	HYSBYSEBU
LABELU	CANFYDDIAD Y CYFRYNGAU		

MAP DEWISIADAU ANODD

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Gall defnyddwyr gwasanaeth ddylunio eu map dewis anodd eu hunain gan ddangos eu siwrne. Gan ddefnyddio'r map hwn, dylai defnyddwyr gwasanaeth feddwl am unrhyw ddewisiadau anodd maen nhw wedi'u hwynebu a sut y byddai pethau wedi bod yn wahanol pe baech wedi gwneud penderfyniad arall. Os yw defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo'n gyffyrddus gallent rannu eu map gyda gweddill y grŵp ac esbonio sut maen nhw'n teimlo am y dewisiadau hyn.

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Map dewisiadau anodd	Diben y gweithgaredd hwn yw gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth feddwl am adegau: - Lle roedd rhaid iddyn nhw wneud dewisiadau anodd a sut mae hyn wedi effeithio ar eu bywyd heddiw - Gobeithio bod meddwl am hyn – a ph'un a oedd yn deg neu'n annheg – yn gwneud i bobl ifanc feddwl am y dewisiadau caled y byddant yn eu hwynebu wrth gynnal cyfweiliadau a pha mor ddifrifol y gallai hyn newid llwybr gyrfa ymgeisydd.	Papur a phennau

CYFWELWYR GWEITHGAREDD10

YMCHWIL FIDEO

DISGRIFIAD O'R GWEITHGAREDD

Cyfweliadau gorau a gwaethaf – Gan ddefnyddio chwilotwr fideo (byddden ni'n argymhell www.youtube.com) dylai'r defnyddwyr gwasanaeth edrych ar y cyfweliadau gorau a gwaethaf am swyddi a thrafod eu barn arnynt. Yna bydd angen i'r defnyddwyr gwasanaeth rannu'n grwpiau a pherfformio cyfweliad da a chyfweliad gwael. Yna byddant yn dangos hyn i'r grŵp er mwyn cael trafodaeth

Amser	Gweithgaredd	Canlyniadau Disgwyliedig	Adnoddau
	Ymchwil fideo	Diben y gweithgaredd hwn yw sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael syniadau o ran: • Yr hyn sy'n gwneud cyfweliad yn un llwyddiannus neu beidio. • Byddant yn edrych ar y gwahanol gyfweliadau i weld y cryfderau a'r gwendidau y gellir eu defnyddio a'u hosgoi yn eu cyfweliad	Papur a phennau, Rhyngwrwyd



Gweithgaredd Gwahaniaethu

Y PRENTIS

Dewiswch eich prentis

- ▶ Rydych chi'n entrepreneur, fel Alan Sugar ar The Apprentice neu Peter Jones ar Dragons Den.
- ▶ Rydych wedi cael y dasg o sefydlu bywyd ar y blaned Mawrth
- ▶ Mae angen i chi 'gyflogi' peiriannydd i wneud hyn
- ▶ Mae'n dasg mawr a heriol fydd yn aros mewn hanes.
- ▶ Mae angen y prentis iawn am hynny - rhywun â gwydnwch, sy'n benderfynol, â phrofiad mewn peirianeg a sgiliau pobl rhagorol!



Dewiswch eich prentis

- ▶ Gan ddefnyddio'r cardiau enw (**Sleid olaf yn y cyflwyniad PowerPoint hwn. Gellir gwneud hyn yn unigol neu mewn parau - bydd angen un set o enwau i bob grŵp**) Trefnwch y cardiau o'ch blaen chi - dyma eich rhestr brentisiaid.
- ▶ Bob tro y datgelir haen o wybodaeth am bob prentis, bydd angen i chi ddiswyddo un person drwy ei dynnu oddi ar eich rhestr.
- ▶ **Pwy fyddwch yn ei ddiswyddo ac yn ei gyflogi?**



Dewiswch eich prentis

Dyma eich prentisiaid...

Diswyddwch un nawr i gael chwech ar ôl

Ali	Patrick	Jamie	David	Adriana	Hannah	Delroy



Dewiswch eich prentis

- Diswyddwch un nawr i gael pump ar ôl

Ali Abdul	Patrick Murphy	Jamie Small	David Campbell	Adriana Carboni	Hannah Mann	Delroy Bailey
------------------	---------------------------	--------------------	---------------------------	----------------------------	------------------------	--------------------------

Dewiswch eich prentis

- Diswyddwch un nawr i gael pedwar ar ôl

Ali Abdul



**Patrick
Murphy**



**Jamie
Small**



**David
Campbell**



**Adriana
Carboni**



**Hannah
Mann**



**Delroy
Bailey**



Dewiswch eich prentis

► Diswyddwch un nawr i gael tri ar ôl

Ali Abdul	Patrick Murphy	Jamie Small	David Campbell	Adriana Carboni	Hannah Mann	Delroy Bailey
						
Heterorywiol	Hoyw	Lesbiad	Heterorywiol	Heterorywiol	Heterorywiol	Heterorywiol


Dewiswch eich prentis

- Diswyddwch un nawr i gael dau ar ôl

Ali Abdul	Patrick Murphy	Jamie Small	David Campbell	Adriana Carboni	Hannah Mann	Delroy Bailey
						
Ffit yn gorfforol ond yn gwisgo sbectol	Ffit yn gorfforol ac yn feddyliol	Ffit yn gorfforol a ffit yn feddyliol	Ag anabledd corfforol, ffit yn feddyliol	Ffit yn gorfforol ac yn feddyliol	Beichiog, ffit yn gorfforol ac yn feddyliol	Ffit yn gorfforol ond yn dioddef o orbyder

Dewiswch eich prentis

► Diswyddwch un nawr i gael un ar ôl



Pwy a ddewisoch?

- ▶ Pa ddewis a wnaethoch?
- ▶ Ydych chi'n falch o'r prentis a gyflogoch?
- ▶ A fydddech wedi gwneud penderfyniad arall os oedd y wybodaeth gymwysterau ar gael i chi gyntaf?
- ▶ Beth sydd o'i le wrth farnu pobl yn ôl cyn lleied o wybodaeth?
- ▶ Beth yn eich barn chi a ddylanwadodd ar eich penderfyniadau?
- ▶ Ydych chi'n credu bod pobl yn barnu eraill fel hyn yn ein bywyd bob dydd?
- ▶ Beth allai fod y canlyniadau o rhagfarnu pobl?



Stereoteipiau a rhagfarn

- Sut byddech yn diffinio neu'n esbonio stereoteipiau a rhagfarn?

Stereoteipiau: y cred bod pawb sy'n perthyn i grŵp penodol yr un fath a rhoi label iddynt, er enghraifft, mae pobl ifanc sy'n gwisgo hwdis yn llabystiaid.

Rhagfarn: yn beirniadu rhywun heb ei adnabod, ar sail sut mae'n edrych neu pa grŵp y mae'n perthyn iddo, er enghraifft, mae pob person croenddu yn ddawnsiwr da.

Cardiau enwau prentisiaid

Ali

Adriana

Hannah

Patrick

David

Delroy

Jamie